


YSGOL BRYNREFAIL
LLAWLYFR
2012 - 2013



“Y byd i'n disgyblion a disgyblion i'n byd”

Gwybodaeth i Rieni

2012 - 2013

Ysgol Brynrefail
Llanrug
Gwynedd
LL55 4AD

Ffôn: 01286 672381
Ffacs: 01286 672066
E-bost: swyddfa@brynrefail.gwynedd.sch.uk

Prifathro: Mr Eifion Jones B.Sc.

Cadeirydd y Llywodraethwyr : Y Parch. Robert Townsend

Ysgol gyfun gymunedol ddwyieithog ar gyfer disgyblion oedran 11- 18

Nifer disgyblion	786
Nifer ceisiadau i Flwyddyn 7	146
Canran ganiatawyd	100%
Rhif mynediad	142

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

Bwriad y llyfryn hwn yw cyflwyno i'ch sylw fraslun o drefniadaeth, polisiau a gweithgareddau'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r cynnwys wedi ei osod yn ôl trefn yr Wyddor, gyda'r rhifau gyferbyn a'r penawdau yn gyfatebol i'r rhifau yn y fersiwn Saesneg. Gall y wybodaeth eang sydd yn y llyfryn godi ambell gwestiwn, felly, buaswn yn falch petaech yn cysylltu yn uniongyrchol â mi os ydych am eglurhad pellach.

Er bod y manylion yn y ddogfen hon yn gywir pan gyhoeddwyd hwy, ni ellir rhagdybio na fydd unrhyw newid a all effeithio ar y trefniadau cyn dechrau neu yn ystod y flwyddyn ysgol neu mewn blynyddoedd i ddod.

Caiff pob disgybl sy'n trosglwyddo o ysgol gynradd yn y dalgylch gyfle i ymweld ag Ysgol Brynrefail o leiaf dwywaith yn ystod y flwyddyn, yn nhymor yr Hydref a'r Haf. Yn ogystal, fe drefnir noson agored yn yr ysgol yn nhymor yr Hydref blaenorol i rieni newydd gael cyfle i ymweld â'r ysgol a chyfarfod â'r athrawon. Credaf ei bod yn bwysig iawn i feithrin cysylltiadau agos rhwng yr ysgol a phob rhiant felly anogaf chi i fanteisio ar bob cyfle ffurfiol ac anffurfiol sy'n codi yn ystod y flwyddyn i gryfhau y berthynas.

Os dymunwch fy nghyfarfod i, neu'r Pennaeth Blwyddyn perthnasol, i drafod agwedd o fywyd yr ysgol, gofynnaf yn garedig i chi wneud trefniadau ymlaen llaw dros y ffôn neu drwy lythyr.

Yn gywir iawn,

Eifion Jones

*Mr. Eifion Jones
Prifathro*

Tachwedd 2011

Ysgol Brynrefail

Ysgol gyfun, gymunedol, wledig o faint canolig yw Ysgol Brynrefail sy'n sefyll yng nghanol dalgylch ysgolion cynradd troed Yr Wyddfa gan gynnwys ysgolion cynradd Bethel, Cwm y Glo, Waunfawr, Deiniolen, Llanberis, Llanrug a Phenisarwaun. Yn y bôn cefndir cyffelyb sydd i'r ysgolion hyn ac felly bydd y newydd-ddyfodiaid yn cyfarfod â disgyblion eraill o gefndir tebyg iawn i'w gilydd. Ar hyn o bryd mae 786 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol a nid yw'n rhy fawr i bawb allu dod i adnabod ei gilydd mewn awyrgylch gartrefol. Felly, nid yw dod i Ysgol Brynrefail o ysgol gynradd yn brofiad arswydus, ac mae disgyblion newydd yn ymgartrefu yn fuan iawn. Yn wir mae dieithriaid ac ymwelwyr cyson yn nodi yr awyrgylch gwrtais, gynnes, Gymreig fel un o nodweddion hynotaf yr ysgol. Nid oes angen i ddisgyblion newydd bryderu, ac os oes unrhyw broblem yn codi, gall y disgybl ofyn am gymorth gan unrhyw aelod o'r staff, gan wneud hynny ar unwaith. Dathlwyd canmlwyddiant yr ysgol ym Medi 2000 a canmolwyd yr ysgol yn ystod Arolwg yn Nhachwedd 2006.

Amcan yr ysgol

Prif amcan yr ysgol yw sicrhau fod pob disgybl yn cael ei drin a'i barchu fel person cyflawn ac yn cael ei gynorthwyo a'i ysgogi i ddatblygu fel person ym mhob ffordd.

Amcanion Academaidd

- *Cyflwyno pynciau y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 a darpar cyrsiau addas ôl 16 oed.
- *Paratoi cyrsiau addas a diddorol a'u cyflwyno trwy ddulliau dysgu priodol er mwyn datblygu gallu pob disgybl i'r eithaf.
- *Paratoi cyrsiau sy'n adlewyrchu gwybodaeth a diwylliant er mwyn i'r disgybl ddatblygu yn berson goleuedig yn y gymdeithas.
- *Meithrin diddordebau personol y disgybl a'i gynorthwyo i ddewis gyrfa addas.
- *Datblygu gallu pob disgybl i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn ei alluogi i fod yn aelod cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog mae yn byw ynddi
- *Sicrhau addysg sy'n dyfnhau ymwybyddiaeth o'r amgylchfyd cenedlaethol a byd eang.
- *Sicrhau fod disgyblion âg anghenion addysgol arbennig yn cael pob cyfle a chymorth i ddatblygu.

Amcanion Bugeiliol

- *Meithrin hunan-ddisgyblaeth yn y disgyblion mewn awyrgylch gartrefol a chyfeillgar.
- *Bod yn adeiladol wrth geryddu gan roi pwyslais ar ymresymu yn hytrach na chosbi.
- *Trin disgyblion â pharch a chydymdeimlad er mwyn creu perthynas iach rhwng athro a disgybl. Ni ddylid dilorni disgybl ar unrhyw adeg.
- *Bod yn effro i unrhyw arwydd o anhapusrwydd mewn disgybl sy'n cael ei fynegi drwy ymroddiad, diffyg prydlondeb neu absenoldeb.

Amcanion Cymdeithasol

- *Creu cymdeithas wareiddiedig lle mae disgyblion ac athrawon yn parchu ei gilydd ac yn cydweithredu i gyflawni gweithgareddau o werth addysgol.
- *Creu awyrgylch o gyfeillgarwch a diwydrwydd.
- *Hybu bob math o weithgareddau all-gyrsiol ffurfiol ac anffurfiol a fydd yn cyfoethogi profiadau cymdeithasol y disgyblion.

Absenoldebau (1)

Petai disgybl yn absennol am unrhyw reswm disgwylir iddo(i) ddod a nodyn o eglurhad i'w athro/awes dosbarth pan mae'n dychwelyd. Byddai galwad ffôn i'r ysgol ar fore cyntaf yr absenoldeb yn gymorth mawr i'r ysgol. Mae trefn o fewn yr ysgol i ddelio â thriwantaeth. Dylai rhieni osgoi cymryd eu plentyn/plant allan o'r ysgol am wyliau teulu yn ystod tymor ysgol, yn enwedig yn ystod arholiadau allanol. Os yn angenrheidiol, caniateir absenoldeb awdurdodedig o hyd at un wythnos mewn cyfanswm mewn unrhyw flwyddyn ysgol. Ni fydd yr ysgol yn awdurdodi absenoldeb mwy nag un wythnos mewn blwyddyn ysgol ar gyfer gwyliau teulu.

Gweler Atodiad 4.

Addysg Grefyddol (2)

Mae gwersi Addysg Grefyddol yn digwydd ym mhob blwyddyn o'r ysgol. Yn ogystal trefnir gwasanaethau crefyddol boreol rheolaidd fesul Cyfnod Allweddol neu fesul dosbarth. Gall rhiant eithrio plentyn o wersi Addysg Grefyddol a chydaddoliad ac fe wneir trefniadau i'w harolygu yn ystod y cyfnod hwn.

Addysg a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd (3)

Darperir y rhaglen addysg yrfaoedd fel ffordd o feithrin gwybodaeth gyffredinol y disgybl, ei ddealltwriaeth a'i brofiad o addysg hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth. Mae'n anelu i helpu pobl ifanc i feithrin y medrau sy'n angenrheidiol i ddod o hyd i wybodaeth a'i defnyddio, i fod yn realistig (ond yn uchelgeisiol), ynglyn a'u galluoedd a'u dyheadau personol ac i wneud penderfyniadau gwybodus.

Mae'r cyfarwyddyd gyrfaoedd sydd ar gael yn yr ysgol yn cynorthwyo unigolion i gymhwyso gywbodaeth, eu medrau a'u dealltwriaeth at eu hunain er mwyn gwneud dewisiadau realistig a phenderfyniadau a chynlluniau priodol ynglyn a'u dyfodol. Mae'r cyfarwyddyd yn cynnig cyfleoedd i adolygu'r hyn a ddysgwyd, i osod nodau newydd ac i gofnodi cyrhaeddiadau mewn amrywiaeth o feysydd. Fel rheol nodweddir cyfarwyddyd effeithiol gan ddiueddwch, cyfrinachedd a hygyrchedd – hoffem feddwl ein bod yn cyrraedd y nodweddion pwysig yma!

Mae'r rhaglen yn cael ei ddarparu i flynyddoedd 9 i 11 ac yn ymestyn i flynyddoedd 12 i 13. Gwneir hyn drwy gyfrwng rhaglen raddedig sydd wedi ei integreiddio o fewn rhaglen ABCh yn ogystal a chyfrannu tuag at gwricwlwm ehangach yr ysgol. Fel rhan o'r ddarpariaeth y bwriad yw i bob disgybl yn ystod cyfnodau gwahanol dderbyn profiadau fel cymorth gyda gwneud dewisiadau, o leiaf un wythnos o brofiad gwaith, un ffug gyfweiliad, mynychu prynhawn opsiynau a mynychu cyfweiliad gyda Chynghorydd Gyrfa. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda asiantaethau allanol fel Gyrfa Cymru, Colegau Addysg Bellach ac Uwch, Asiantaethau Hyfforddi, Adran Addysg y Cynulliad, Cyngor Gwynedd a nifer o gyflogwyr lleol. Mae'r adran Gyrfaoedd a Gyrfa Cymru yn ceisio gadael i rieni/gwarchodwyr wybod beth sy'n mynd ymlaen ar adegau gwahanol. Maent hefyd ar gael yn ystod nosweithiau rhieni neu pan yn gyfleus i geisio ateb unrhyw gwestiwn perthnasol.

Addysg Rhyw (4)

Mae addysg rhyw yn ran allweddol a chreiddiol o gwricwlwm pob disgybl ac mae'r modd y'i cyflwynir yn annog disgyblion ei drafod mewn cyd-destun moesol a chymdeithasol.

Defnyddir gwersi Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 3 i ddysgu'r agweddau ffeithiol beiolegol ac addysg iechyd. Yng Nghyfnod Allweddol 4 defnyddir y rhaglen Addysg Bersonol a Chymdeithasol i drafod materion cymdeithasol, camdrin, agweddau ar ryw, creu perthynas, afiechydon fel SDIC a chynllunio teulu. Gwahoddir arbenigwyr o fyd addysg iechyd i'r ysgol i gyfrannu i'r rhaglen hon. Gall rhiant dynnu plentyn o'r cyfan neu ran o'r rhaglen addysg rhyw.

Arholiadau Allanol (5)

Bydd holl ddisgyblion yr ysgol yn derbyn asesiadau athrawon yn 14 oed ym mhob pwnc.

Bydd y mwyafrif helaeth o'n disgyblion yn sefyll arholiadau TGAU Cyd Bwyllgor Addysg Cymru yn 16 oed. Gall nifer fechan o'r disgyblion yn unol â'u cyrhaeddiad, sefyll arholiad y Dystysgrif Lefel Mynediad. Yna, cânt gyfle i sefyll arholiadau lefel A neu AS, os ydynt am aros ymlaen i'r Chweched Dosbarth.

Cynhwysir ffigurau canlyniadau arholiadau a'r pynciau mae'r disgyblion yn eu sefyll yn yr ysgol yn yr atodiadau yng nghefn y llyfryn yma. Gweler **Atodiad 7, 8 a 9**.

Un agwedd yn unig o lwyddiant ysgol yw canlyniadau arholiadau ac mae tystiolaeth fod rhieni yn rhoi pwys ar agweddau eraill yn ogystal megis gweithgareddau all-gyrsiol, disgyblaeth a gwedd ac adnoddau'r ysgol. Yn aml bydd canlyniadau arholiadau yn adlewyrchu'r amrywiaeth yn natur y dalgylchoedd yn hytrach na llwyddiant ysgol benodol. Mae'n holl bwysig na fydd disgyblion yn absennol ar gyfer arholiadau allanol.

Arolwg o'r ysgol (6)

Cafwyd Arolwg o waith yr ysgol yn Nhachwedd 2006. Cafwyd cryn ganmoliaeth i fywyd a gwaith yr ysgol—gellid gweld yr adroddiad ar safwe ESTYN neu drwy safwe'r ysgol.

Asesu ac adrodd (7)

Mae asesu yn broses hanfodol a pharhaus fel rhan o gynllun gwaith pob adran. Ar wahan i asesu cyson yn ystod y flwyddyn cedwir tystiolaeth er mwyn rhoi barn ar lefel cyrhaeddiad ac ymdrech ym mhob pwnc. Cynhelir profion ac arholiadau rheolaidd gan adrodd i rieni ddwywaith neu dair pob blwyddyn ac mewn cyfarfodydd ffurfiol lle ceir cyfle i gyfarfod yr athrawon sy'n dysgu'r disgyblion.

Calendr 2012 - 2013 (8)

Tymor yr Hydref	3 Medi 2012 i 21 Rhagfyr 2012
Gwyliau Hanner Tymor	29 Hydref i 2 Tachwedd 2012
Tymor y Gwanwyn	7 Ionawr 2013 i 22 Mawrth 2013
Gwyliau Hanner Tymor	11 - 15 Chwefror 2013
Tymor yr Haf	8 Ebrill 2013 i 22 Gorffennaf 2013
Gwyliau Hanner Tymor	27 - 31 Mai 2013

Yn ystod y flwyddyn trefnir pump diwrnod o Hyfforddiant Mewn Swydd i'r athrawon pan geir yr ysgol i'r disgyblion. Bydd y dyddiau hyn yn ymddangos ar galendr yr ysgol.
Gweler Atodiad 11 am galendr 2011 – 2012.

Cofnod o Gyrhaeddiad (9)

Fe gyflwynir Cofnod o Gyrhaeddiad i bawb ym mlwyddyn 11. Ei fwriad yw crynhoi amrywiaeth helaeth o gyflawniadau personol y disgybl o fewn a thu allan i'r ystafell dosbarth nad yw'r arholiadau allanol yn rhoi mesur arnynt.

Cwricwlwm yr ysgol (10)

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys gan ddilyn gofynion a chanllawiau pynciau a themau traws gwricwlaidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Dyma amlinelliad o'r ddarpariaeth cwricwlaidd a geir yn yr ysgol yng Nghyfnod Allweddol 3 a 4.

Cwricwlwm Cyfnod Allweddol 3

Iaith :	Cymraeg, Saesneg, Iaith Fodern-Ffrangeg
Mathemateg	
Gwyddoniaeth	
Technoleg:	Dylunio, Celf
Dyniaethau:	Daearyddiaeth, Hanes, Astudiaethau Crefyddol
Cerdd	
Addysg Gorfforol	
Addysg Bersonol a Chymdeithasol	
Technoleg Gwybodaeth	

Cwricwlwm Cyfnod Allweddol 4

Iaith	Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth
	Saesneg Iaith a llenyddiaeth
	Iaith Fodern - Ffrangeg a Sbaeneg
Mathemateg	
Gwyddoniaeth	
Technoleg	Dylunio a Thechnoleg
	Gofal Plant
	Arlwyo
	Celf
	Addysg Trafnidiaeth
	Technoleg Gwybodaeth
	Adeiladwaith
	Peirianneg
Dyniaethau	Hanes
	Daearyddiaeth
	Astudiaethau Crefyddol
Cerdd	Trin Gwallt
Sgiliau Bywyd	Addysg Awyr Agored
Addysg Gorfforol	Technoleg Cerdd
Addysg Bersonol a Chymdeithasol	Cyfrngau Rhyngweithiol
Sgiliau Gwledig	Iechyd a Gofal
Astudiaethau Busnes	Y Gyfraith
Y Fagloriaeth Cymraeg—Lefelau Canolradd a Sylfaenol	

Cwricwlwm y Chweched Dosbarth

Mae'n bwysig fod gwaith Cyfnodau Allweddol 3 a 4 yn gosod sylfaen ar gyfer yr hyn a ddewisir gan ein disgyblion yn y Chweched dosbarth. Mae y mwyafrif helaeth ohonynt yn dewis dychwelyd i'r ysgol i astudio pynciau Lefel A neu AS. Cânt gyfnodau tiwtora a craidd cyffredin yn ogystal ag astudio ar gyfer Bagloriaeth Cymraeg Lefel Uwch.

Dros y blynyddoedd diwethaf mae nifer o'n disgyblion wedi manteisio ar yr arferiad o gynnal rhai pynciau ar y cyd ag ysgolion eraill ac yn fwy diweddar gyda Coleg Menai. Mae cyfanswm o dros 30 o gyrsiau ar gael yn y Chweched Dosbarth.

Cyfeillion Ysgol Brynrefail (11)

Dyma'r enw a fabwysiadwyd gan gymdeithas rhieni ac athrwon yr ysgol. Maent yn trefnu nifer o weithgareddau cymdeithasol ac addysgol yn ystod y flwyddyn. Dros y blynyddoedd maent hefyd wedi codi symiau sylweddol o arian i helpu brynu offer ac adnoddau i'r ysgol.

Cyfle Cyfartal (12)

Ymdrechir i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol.

Cyflwr meddygol (13)

Disgwylir i rieni hysbysu'r ysgol am unrhyw gyflwr meddygol neu glinigol a allai effeithio ar allu y disgybl i wneud unrhyw agwedd o waith yr ysgol.

Petai disgybl yn sâl yn yr ysgol gwneir pob ymdrech iddo(i) fynd adref ar ôl cysylltu â'r rhiant.

Ni roddir tabledi nac unrhyw foddion i ddisgybl onibai fod y rhiant yn cysylltu drwy lythyr a'r ysgol i wneud trefniadau arbennig.

Mae'r nyrs ysgol yn cynnal meddygfa wythnosol yn yr ysgol. Gwahoddir disgyblion i drefnu apwyntiad gyda'r meddyg ysgol pan fydd angen.

Cynllun offerynnol (14)

Mae'r ysgol yn cefnogi cynllun Gwersi Offerynnol i ddisgyblion sy'n hybu medrusrwydd gydag offerynnau cerdd. Adolygir yr ymrwymiad i'r cynllun hwn yn flynyddol.

Cynnal disgyblion gydag anghenion arbennig (15)

Bydd disgyblion âg anghenion arbennig yn cael eu cynnal naill ai gyda chymorth athrawon cynhaliol neu gymorthyddion yn y gwersi arferol neu drwy dynnu disgyblion allan ar gyfer ambell wers yn y pynciau craidd.

Gweler Atodiad 6.

Cyswllt â'r Awdurdod Addysg (16)

Mae'n bosibl o bryd i'w gilydd fod rhieni yn dymuno cymorth y Gwasanaeth Lles Addysg, yr Heddlu sydd â chysylltiad cymunedol â'r ysgol, Gweithwyr Cymdeithasol, Gwasanaeth Prydau ysgol, Cludiant i'r ysgol neu Grantiau cynnal.

Petai unrhyw riant am gysylltu â'r Awdurdod Addysg Lleol dylid gwneud hynny drwy gysylltu â'r :

**Pennaeth Gwasanaeth Ysgolion, Mr Dewi R. Jones yn y Swyddfa Addysg, Stryd y Castell,
Caernarfon.**

Rhif ffôn yr Adain Ysgolion yw Caernarfon (01286) 679162

Cyswllt â byd busnes a diwydiant (17)

Mae'r ysgol yn hybu llawer o gysylltiadau yn y maes yma drwy weithgareddau amrywiol, lleoli athrawon mewn diwydiant, ymweliadau â gweithfeydd a diwydiannau a chyfnodau o brofiad gwaith i bob disgybl.

Mae pob disgybl ym mlwyddyn 10 ac 11 yn cymryd rhan yn y Cynllun Compact, sef cynllun a gefnogir gan gyflogwyr i roi ystyriaeth mwy ffafriol i ddisgyblion sy'n cwblhau gofynion presenoldeb, prydlondeb, cwblhau gwaith cwrs a phrofiad gwaith yn foddhaol fel eu bod yn ennill Tystysgrif Compact.

Cyswllt â rhieni (18)

Mae perthynas agos rhwng rhieni a'r ysgol yn bwysig iawn ac anogir rhieni i fanteisio ar bob cyfle ffurfiol fel yr ymweliadau wrth drosglwyddo o'r cynradd a nosweithiau rhieni i gyfarfod â'r athrawon sy'n dysgu eu plant, neu yn anffurfiol mewn cyngherddau, eisteddfod neu weithgareddau y Gymdeithas Cyfeillion.

Petai angen fe gysylltir â'r cartref ar unrhyw adeg pan fydd problem sylweddol ynglyn â disgybl yn codi, boed hynny yn fater academaidd neu fugeiliol. Credir mai drwy gydweithio a chyd-drafod rhwng ysgol a chartref y ceir ateb i unrhyw bryder o bwys. Defnyddir y Llyfr Cyswllt Cartref gan y disgyblion i gofnodi gwaith cartref, dyddiadau pwysig, gweithgareddau, ac yn y blaen. Fe'i ddefnyddir hefyd i anfon negeseuon rhwng yr ysgol a'r cartref.

Cysylltu â'r ysgol (19)

Mae croeso i chwi gysylltu â'r ysgol i drafod unrhyw fater. Yn y man cyntaf dylech wneud hynny drwy Syddfa'r Ysgol, er mwyn osgoi siwrna chwithig. Bydd Ysgrifenyddes yr ysgol yn trefnu apwyntiad gyda'r Prifathro, un o'r Dirprwyon, neu'r Pennaeth Blwyddyn perthnasol.

Rhif ffôn yr ysgol yw Caernarfon (01286) 672381

Cyfeiriad e-bost yr ysgol yw: swyddfa@brynrefail.gwynedd.sch.uk

Difrod i eiddo (20)

Disgwylir i unrhyw un a geir yn euog o niweidio eiddo'r ysgol neu eiddo i'r staff neu ddisgybl dderbyn y cyfrifoldeb am wneud iawn am y niwed.

Disgyblaeth (21)

Mae pob athro/athrawes yn gyfrifol am ddisgyblaeth yn y dosbarth.

Trefnir dyletswyddau staff i arolygu yn ystod yr egwyl a'r awr ginio.

Cyfeirir unrhyw drafferthion disgyblaeth i'r Pennaeth Blwyddyn fel cam cyntaf. Yna os yw'r digwyddiad yn un difrifol i'r Dirprwyon neu'r Prifathro.

Rhoddir y pwyslais ar i'r disgyblion ddefnyddio eu synnwyr cyfferdin gan ymddwyn yn resymol ac annibynnol heb ormod o oruchwyliaeth. Y nôd yw datblygu hunan-ddisgyblaeth a'r gallu i ymddwyn yn ddoeth heb i rywun mewn awdurdod fod wrth law a cheryddu bob amser. Mae'r mwyafrif helaeth yn ymateb yn ffafriol iawn i'r math yma o sefyllfa.

Petai angen fe gosbir disgyblion drwy eu cadw i mewn yn ystod yr egwyl neu'r awr ginio neu ar ôl ysgol ar ôl rhoi rhybudd i rieni.

Gofal Bugeiliol (22)

Mae'r drefn fugeiliol yn amcanu i ofalu am les y disgybl gan arolygu yr ymddygiad a'r cynnydd yn gyffredinol.

Yr athro/athrawes sy'n cofrestru'r dosbarth ddwywaith y dydd sydd yn gyfrifol am oruchwylio presenoldeb a gweld fod y disgybl yn deall rheolau'r ysgol.

Cyfeirir unrhyw broblem sylweddol gydag unrhyw ddisgybl i'r Pennaeth Blwyddyn ac os bydd rhaid i sylw y Dirprwyon neu'r Prifathro.

Credir mewn dwyn sylw rhieni i unrhyw bryder sylweddol sy'n digwydd yn yr ysgol ac fe wneir hynny drwy lythyr neu dros y ffôn.

Grwpiau a dulliau dysgu (23)

Cymharol fychan yw maint y rhan fwyaf o ddosbarthiadau yn yr ysgol gyda niferoedd o tua 25 yn CA3 a llai yn CA4. Ceir amrywiaeth o ddulliau dysgu lle mae disgyblion yn cael eu grwpio mewn dosbarthiadau o wahanol allu. Yr arferiad mwyaf cyffredin yw cynnal dosbarthiadau o allu cymysg, ond mae enghreifftiau o setio a bandio mewn rhai pynciau. Defnyddir amrywiaeth o ddulliau dysgu gan gynnwys gwaith dosbarth cyfan, gwaith grwp ac ymchwilio unigol er mwyn herio'r unigolyn.

Gwaith Cartref (24)

Bydd gwaith cartref y cael ei osod yn rheolaidd ym mhob pwnc. Defnyddir gwaith cartref i fesur ymroddiad disgybl ac i fagu'r arferiad o weithio yn annibynnol, cyson a threfnus.

Bydd y gwaith a osodir fel gwaith cartref yn cael ei gofnodi yn y Llyfr Cyswllt Cartref.

Gwisg ysgol (25)

Mae disgwyl i'r disgyblion sy'n mynychu'r ysgol wisgo gwisg arbennig.

Mae llawer rheswm am hyn ond y prif reswm yw dangos eu bod yn ddisgyblion Ysgol Brynrefail a'u bod yn falch o'r ysgol ac mae'r wisg ysgol yn arwydd o hynny.

Cefnogir y wisg ysgol gan y Corff Llywodraethol. Ceir rhestr o'r wisg yn **Atodiad 3**

Gall rhieni mewn achosion o angen wneud cais am grant wisg i'r Awdurdod Addysg.

Gwybodaeth am ddisgyblion (26)

Cedwir cofnod cwricwlaidd ar gyfer pob disgybl ac fe'i diweddarir yn flynyddol. Dylid cysylltu â'r Prifathro i drafod adroddiad unrhyw ddisgybl.

Lluniau/fideos – bydd yr ysgol yn tynnu lluniau llonydd a/neu symudol o'r disgyblion fel cofnod o waith yr ysgol ac weithiau yn gwahodd pobl o'r cyfryngau cyhoeddus i'r ysgol i dynnu lluniau a/neu ffilmio yn ôl disgrisiwn y Prifathro. Cymerir yn ganiataol nad oes gwrthwynebiad i hyn gan riant/warcheidwad – os oes, wnewch chi gadarnhau hynny drwy lythyr i'r Prifathro, os gwelwch yn dda.

Gweithgareddau allgyrsiol yn yr ysgol (27)

Ceir digon o weithgareddau a phrofiadau amrywiol i ehangu gorwelion y disgyblion.

Ym mysg y rhai mwyaf cyffredin nodir:

Gweithgareddau'r Urdd gyda teithiau ac ymweliadau â Gwersyll Glanllyn.

Twrnamentau chwaraeon fel peldroed, hoci, pelrwyd, pelfasged, athletau, nofio a rygbi.

Ymweliadau â'r theatr.

Croesawir siaradwyr gwadd, grwpiau dawnns a dramatig i'r ysgol.

Eisteddfod ysgol ac Eisteddfodau'r Urdd.

Fel arfer ceir taith dramor yn ystod Gwyliau'r Pasg neu ar ddiwedd Tymor yr Haf.

Ymweliadau addysgol â diwydiannau a byd busnes.

Wythnos trawsgwricwlaidd – Bl.7 i 9 – tymor yr haf – wythnos o weithgareddau estynedig cwricwlaidd sydd yn cyfoethogi profiadau addysgol y disgyblion ac yn rhan integredig o'u haddysg. Mae disgwyl i bob disgybl gymeryd rhan llawn yn y gweithgareddau hyn.

Sefydlwyd Clwb 'Refail' sef clwb sy'n cyfarfod rhwng 4 a 6 o'r gloch i ddefnyddio adnoddau'r ysgol gan gynnig amrywiaeth o weithgareddau hamdden fel peldroed, pelrwyd, gymnasteg, pelfasged, criced a dawnns i ddisgyblion cynradd y dalgylch a disgyblion iau Ysgol Brynrefail.

Llyddiant disgyblion ym myd chwaraeon (28)

Dros y blynyddoedd mae'r ysgol wedi profi nifer o lwyddiannau ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol gyda disgyblion yn disgleirio ym myd y bêl, athletau a gweithgareddau awyr agored. Mae neuadd chwaraeon newydd wedi ei hagor ers Gwanwyn 2006.

Llyfrgell Adnoddau (29)

Mae'r ysgol yn falch iawn o'i llyfrgell adnoddau, sef tair ystafell nesaf i'w gilydd. Mae un yn cynnwys y llyfrgell draddodiadol gydag amrywiaeth helaeth o offer cyfrifiadurol diweddaraf gyda llyfrgellydd yn goruchwyllo ac yn cynorthwyo'r disgyblion wrth eu gwaith. Yn y ddwy ystafell arall lleolir tri deg o gyfrifiaduron yr un i waith dosbarth a chaiff pob disgybl gyfle i ddefnyddio pob math o offer i bwrpas technoleg gwybodaeth. Mae pob ystafell ddysgu yn gysylltiedig â'r rhwydwaith gyfrifiadurol gwricwlaidd sy'n galluogi mynediad i'r Wê. Hefyd, mae dwy ystafell technoleg gwybodaeth ychwanegol yn y bloc Technoleg newydd gafodd ei agor yn Ionawr 2003. Mae tua 300 o gyfrifiaduron ar rwydwaith TGC yr ysgol i gyd â cyswllt band llydan â'r We.

Mynediad i'r ysgol (30)

Caiff pob disgybl sy'n mynychu ysgol gynradd yn nalgylch Ysgol Brynrefail yr hawl i fynediad iddi. 142 yw rhif mynediad yr ysgol. Gwneir cysylltiadau â rhieni yn ystod tymor cyntaf y flwyddyn academaidd cyn i ddisgybl drosglwyddo i ysgol uwchradd. Gwrandewir ar apeliadau gan y Cyfarwyddwr Addysg.

Dylai rhiant sy'n symud i fewn i'r ardal gysylltu â'r Prifathro yn y man cyntaf.

Polisi Iaith (31)

Gan fod yr ysgol wedi ei lleoli mewn ardal naturiol Gymreig, gydag ond lleiafraif o ddysgwyr a'i bod yn fwy na 600 disgybl o faint, fe'i gosodwyd yng nghategori B(i) yn ôl Dogfen Polisi Iaith Gwynedd.

Prif nôd polisi iaith yr ysgol yw sicrhau fod pob disgybl yn datblygu'n hyderus ddwyieithog ac felly fe ddysgir y Gymraeg a'r Saesneg i bob disgybl hyd ddiwedd Blwyddyn 11. Fe bennir y cyfrwng dysgu a'r cydbwysedd ieithyddol yn unol â'r dealltwriaeth o anghenion dwyieithog y disgyblion unigol.

Cymraeg yw iaith gyfathrebu arferol yn yr ysgol.

Profion ac arholiadau mewnol (32)

Gosodir profion rheolaidd ym mhob adran fel ffordd o fesur cynnydd, ymdrech ac ymroddiad disgybl i'w waith. Defnyddir y canlyniadau fel un tystiolaeth i helpu i osod disgybl mewn grwp neu set dysgu.

Trefnir profion hanner tymor ac anfonir adroddiad at y rhieni.

Profiad Gwaith ac ymwybyddiaeth o fyd gwaith (33)

Mae gan yr ysgol bolisi strwythuredig i sicrhau rhaglen addysg diwydiant a busnes gyda'r pwyslais ar ei integreiddio i gwricwlwm yr ysgol. Fel rhan o'r rhaglen hon rhoddir lleoliadau profiad gwaith i bob disgybl yn Blwyddyn 11 ac 12. Cyn trefnu'r lleoliad bydd yr ysgol yn trafod a phenderfynnu ar nôd ac amcanion y lleoliad a'i berthnasedd i'r disgybl. Ceir cefnogaeth Gyrfa Cymru i hyrwyddo cysylltiadau â byd gwaith a chyflogwyr. Mae'r ysgol wedi derbyn dau Wobr Cydnabod Ansawdd am ei gwaith arbennig gyda Profiad Gwaith cyn 16 oed ac am eu gwaith gyda Cyfarwyddyd ac Addysg Gyrfaoedd drwy'r ysgol.

Rheolau ymarferol (34)

Amcanion rheolau yw hyrwyddo trefn yn yr ysgol. Oni ufuddheir iddynt yna mae trefn yr ysgol yn dioddef .

- Rhaid cerdded yn drefnus ar ochr dde y coridorau a'r grisiau. Ni chaniateir rhedeg.
- Disgwylir prydlondeb i'r ysgol ac i'r gwersi.
- Dylai enw y disgybl fod ar bob eitem o wisg ac offer.
- Os bydd angen dod a swm sylweddol o arian i'r ysgol dylid ei roi i'r ysgrifenyddes i'w gadw'n ddiogel. Ni fydd yr ysgol yn gyfrifol am golledion.
- Rhaid gwisgo y wisg ysgol briodol. **Gweler Atodiad 3.**
- Rhaid clirio yr adeilad yn ystod yr egwyl a'r awr ginio. Defnyddir y Neuadd i lochesu ar dywydd garw.
- Nid oes caniatad i grwydro oddi ar dir yr ysgol.
- Rhaid cael caniatad rhiant a derbyn tocyn i adael yr ysgol yn ystod yr awr ginio – disgyblion Llanrug yn unig.
- Rhaid i ddisgyblion aros ar iard yr ysgol i ddisgwyl am fws ar ddiwedd y dydd.

Ychwanegir at y rhestr yma yn ôl y gofyn. Gweler y Còd Ymarfer ar Gyfer Disgyblion a'r Cytundeb Cartref Ysgol -**Atodiad 12.**

Tai yr ysgol (35)

Rhennir y disgyblion i bedwar ty sef Eilian, Elidir, Eryri a Gwyrfaï ac mae cystadleuthau rhyngddynt mewn peldroed, hoci, athletau, ac wrth gwrs, fe gynhelir eisteddfod yr ysgol.

Talu am Weithgareddau Ysgol (36)

Mae'r Awdurdod Addysg Lleol wedi mabwysiadu polisi o *godi tâl* ar ddisgyblion am :

- *gostau llety a bwyd ar ymweliadau addysgol
- *weithgareddau y tu allan i oriau ysgol
- *arholiadau allanol pan nad yw'r ysgol wedi paratoi disgyblion ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn honno.
- *arholiadau pan fo disgybl yn methu cyflawni'r gofynion neu fynychu'r arholiad heb reswm digonol.
- *difrod i eiddo'r ysgol neu am golli eiddo 'r ysgol.
- *gymryd rhan yn y Cynllun Offerynnau Cerdd.

Gofynnir am *gyfraniad gwirfoddol* gan rieni pan na ellir codi tâl am weithgareddau ond sicrhair na waherddir disgyblion rhag cymryd rhan pan na all rhieni gyfrannu. Mae'n bosibl na fydd modd cynnal rhai gweithgareddau heb gefnogaeth wirfoddol deilwng.

Ceir manylion pellach yn yr ysgol ynglyn â gwybodaeth am ddarpariaeth ar gyfer disgyblion anghenus.

Trefn Cwyno (37)

Mae'r Awdurdod Addysg Lleol, yn unol â gofynion statudol, wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion ac mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu'r drefn. Amlinellir y drefn hon yn llawn mewn dogfen a geir yn yr ysgol. Darperir copi rhad yn ôl y gofyn.

Pwysleisir fodd bynnag y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy drafod â'r Pennaeth Blwyddyn neu'r Prifathro. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, felly bydd y Corff Llywodraethol yn disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gwyn yn ffurfiol.

Dylid cysylltu ag Ysgrifenyddes yr ysgol i wneud apwyntiad i drafod y mater gyda'r Pennaeth Blwyddyn neu'r Prifathro.

Trefn y dydd (38)

Darperir gwersi am 25 awr yr wythnos. Rhennir y dydd yn chwe gwersi bob un yn 50 munud o hyd. Cenir cloch rhwng pob gwersi ac mae'r disgyblion yn symud o un ystafell arbenigol i un arall. Wrth symud o gwmpas yr ysgol rhwng gwersi mae'n rhaid gwneud hynny yn drefnus gan gadw ar ochr dde y coridor a'r grisiau.

Trefn y dydd:

8:45 - 9:00	Cofrestru a Gwasanaeth
9:00 - 10:40	Gwersi 1 a 2
10:40 - 11:00	Egwyl y bore
11:00 - 12:40	Gwersi 3 a 4
12:40 - 13:40	Cinio
13:40 - 13:45	Cofrestru
13.45 - 15.25	Gwersi 5 a 6

Trefniadau amser cinio (39)

Er diogelwch y mae'n rhaid i ddisgyblion yn ystod yr awr ginio roi gwybod i'r athro/awes dosbarth o'u bwriad i :

Un ai a) fynd adref os ydynt yn byw yn ddigon lleol i gerdded adref yn ystod yr awr ginio
neu b) gymryd cinio ysgol. Trefnir cinio am ddim i'r rhai sydd â'r hawl i'w dderbyn.
neu c) dod a bwyd eu hunain i'w fwyta yn y Ffreutur.

Rhaid rhoi gwybod i'r athro/awes dosbarth os newidir y drefn yn ystod y flwyddyn.

Darperir tocyn caniatad i'r disgyblion hynny sy'n mynd adref amser cinio dim ond ar ôl derbyn ffurflen bwrpasol wedi ei harwyddo gan riant.

Troseddau difrifol (40)

Mae gan y Prifathro hawl i wahardd disgyblion rhag mynychu'r ysgol am unrhyw reswm a ystyria yn ddigonol am gyfnod hyd at bymtheg niwrnod ysgol mewn ymgynghoriad a Chadeirydd y Llywodraethwyr. Bydd gan y rhieni hawl i apelio yn erbyn y gwaharddiad i Gadeirydd y Llywodraethwyr. Os bydd y Prifathro o'r farn bod angen ymestyn yr ataliad gall y Cadeirydd awdurdodi ei ymestyn am gyfnod hyd at bedwardeg pump diwrnod ysgol, ond yn ystod y cyfnod hwn rhaid galw cyfarfod o'r Llywodraethwyr i ystyried yr achos. Mae modd apelio i Banel Apêl annibynnol dan Ddeddf Addysg 1993 os bydd yr Awdurdod Addysg Lleol yn cymeradwyo'r penderfyniad i wahardd yn barhaol.

Ystyrir y troseddau canlynol yn achosion o gamymddwyn difrifol:

- * Bygwth, ymladd ag neu ymosod ar ddisgybl neu aelod o staff.
- *Bod yn anfoesgar neu anufudd tuag at aelod o staff yr ysgol.
- *Dwyn.
- *Dinistrio eiddo.
- *Gadael yr ysgol heb ganiatad.
- *Ymwneud â chamddefnyddio cyffuriau, alcohol neu ysmygu.
- *Dod ag arf/arfau peryglus i'r ysgol.

Anaml iawn mae'r troseddau uchod yn digwydd ond os cyflawnir un ohonynt, mae'r gosb yn llym a phendant.

Os am ragor o wybodaeth am yr ysgol

Ceir casgliad llawn o ddatganiadau a pholisiau'r ysgol a'r Awdurdod Addysg Lleol yn yr ysgol yn ogystal a chynlluniau gwaith, meysydd llafur ac adroddiad Arolwg ar yr ysgol yn Nhachwedd 2006.

Gall rhieni drefnu i ymweld a'r ysgol i gael mynediad at ddogfennau yn ddi-dal.

Os bydd newidiadau neu ychwanegiadau yn digwydd i'r wybodaeth a gyflwynir yn y Llawlyfr hwn hysbysir cyfarfod blynyddol y Llywodraethwyr a'r Rhieni o hynny.

Atodiad 1.

Aelodaeth o'r Corff Llywodraethol ar gyfer 2011 - 2012

**Cadeirydd
Is-Gadeirydd**

**Y Parch Robert Townsend
Mrs. Ann Pritchard Jones**

Dylid cysylltu â'r Cadeirydd drwy Mr Kevin Wyn Owen,
Swyddog Gweinyddol yr ysgol, yn ei rôl fel Clerc y
Llywodraethwyr.

Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg Leol

Y Cynghorydd Pat G Larsen
Y Cynghorydd Charles Wyn Jones
Y Cynghorydd Richard Leonard Jones
Y Cynghorydd Trefor Edwards
Y Cynghorydd Brian Jones

Cynrychiolwyr yr Athrawon

Mr Arwel Stephen
Miss Catherine F. Jones

Cynrychiolydd y Staff Ategol

Mrs Haf Williams

Cynrychiolwyr Rhieni

Mrs Sali Burns
Mrs Gillian Price
Mr Dafydd M. Roberts
Parch Robert Townsend
Mr Len Brookes
Mrs Anna Williams

Aelodau Cymunedol

Mr John Wyn Jones
Mr Malcolm Jones
Mrs Ann P. Jones
Mr Wallis George
(Un aelod i'w gadarnhau)

Y Prifathro

Mr Eifion Jones

Staff dysgu yr ysgol**Enw**

Mr.S Allsup
 Mrs.G Bebb
 Miss.R L Davies
 Miss Ll. W. Dobbins
 Mrs Anwen Edwards
 Mrs Nia R. Williams
 Dr G.S. Evans
 Mrs G.V Evans
 Mr.W A.Evans
 Mlle. M. Guillemin
 Mrs S. Griffiths
 Mrs S. Harris
 Mr. P. Holland
 Mr.B W Hughes
 Mrs.J.C. Hughes
 Miss C.F. Jones
 Dr.B A Humphreys-Jones .
 Mrs C.W. Jones
 Mr. Eifion Jones
 Mr.H Jones
 Mr.H P Jones
 Mr. R.Ll.Jones
 Mrs. S. Jones
 Miss S.P. Jones
 Mrs I. McDermont
 Ms. Sara Maynard
 Mrs R. Owen
 Mrs S. Owen
 Mr.R D Parri
 Mrs Anwen Powell
 Miss A.Ll. Roberts
 Mr.D Roberts
 Mrs. Eimir Roberts
 Mrs L. W.Roberts
 Miss Marian Roberts
 Mr.R B Roberts
 Mr.R E. Roberts
 Mrs Sioned Roberts
 Mrs.Y Roberts
 Mr Arwel V. Stephen
 Mrs. S. Toseland
 Mr. A. Williams
 Mr. I.P. Williams
 Mr. John Ll. Williams
 Ms H. Richards
 Mr Gareth Davies

Cyfrifoldeb

Athro Mathemateg: Cyd-gysylltydd Arholiadau
 Cyd-Bennaeth Cymraeg : Cyd-gysylltydd CA3
 Pennaeth Bywydeg
 Athrawes Addysg Gorfforol
 Pennaeth Cerdd
 Athrawes Gwyddoniaeth / Bywydeg
 Pennaeth Ffiseg
 Athrawes Cymraeg: Cyd-gysylltydd CA4
 Pennaeth Addysg Grefyddol: Pennaeth Blwyddyn 9
 Pennaeth Ffrangeg
 Cyd-gysylltydd Anghenion Addysgol Arbennig
 Athrawes Addysg Gorfforol: Pennaeth Blwyddyn 10
 Pennaeth Addysg Gorfforol
 Pennaeth y Gyfadran Technoleg
 Athrawes Technoleg a Celf
 Athrawes Saesneg
 Pennaeth Cyfadran Gwyddoniaeth: Pennaeth Cemeg
 Athrawes Cymraeg
 Prifathro
 Pennaeth Cyfadran Dyniaethau : Pennaeth Hanes: Pennaeth Bl. 12/13
 Cyd-gysylltydd Gyrfaoedd/Profiad Gwaith : Pennaeth Blwyddyn 11
 Cyd-gysylltydd Technoleg Gwybodaeth
 Athrawes Ffrangeg
 Athrawes Mathemateg
 Athrawes Saesneg: Pennaeth Blwyddyn 7
 Pennaeth Saesneg
 Pennaeth Technoleg Cartref: Cyd-gysylltydd Addysg Iechyd
 Pennaeth Celf
 Athro Daearyddiaeth a Technoleg Gwybodaeth
 Athrawes Economeg y Cartref
 Athrawes Mathemateg
 Dirprwy Brifathro
 Athrawes Cerdd a Cymraeg
 Cyd-Bennaeth Cymraeg
 Cyd-gysylltydd Galwedigaethol: Athrawes TG ac Ast.Busnes
 Athro Mathemateg
 Pennaeth Daearyddiaeth: Cyd-gysylltydd 16+
 Athrawes Gwyddoniaeth / Cemeg
 Athrawes Saesneg : Pennaeth Blwyddyn 8
 Pennaeth Mathemateg
 Athrawes Saesneg
 Dirprwy Brifathro
 Athro Technoleg
 Athro Gwyddoniaeth / Ffiseg
 Athrawes Hanes
 Athro Mathemateg

Staff Ategol yr Ysgol**Enw**

Mr K.W. Owen
 Mrs.J M Jones
 Mrs R. Williams
 Mrs.E Hughes
 Mr E. H. Jones
 Mrs.H Williams
 Mr I. Pritchard
 Mr J.Roberts
 Mr A. Williams
 Mrs R. Evans
 Mrs J. Jones

Cyfrifoldeb

Swyddog Gweinyddol
 Ysgrifenyddes yr ysgol
 Cymorthydd clerigol
 Technegydd reprograffeg
 Llyfrgellydd
 Technegydd Gwyddoniaeth
 Technegydd TGC/Technoleg
 Gofalwr
 Cyd-gysylltydd 5 x 60
 Goruchwylwraig Cinio
 Goruchwylwraig Cinio

Enw

Mrs Gladwen Pritchard
 Mrs Clare Y. Hughes
 Mrs Caryl Owen
 Mrs Bethan Williams
 Mrs Lynn Rowlands
 Mrs Helen Rowland Llwyd
 Mr Nidian Huws
 Mrs Christine Jones
 Mrs Ann M. Hughes
 Mrs Elaine Price
 Mrs Liz Daniel

Cyfrifoldeb

Cymorthydd Dosbarth
 Cymorthydd Dosbarth
 Cymorthydd Dosbarth
 Cymorthydd Dosbarth
 Cymorthydd Dosbarth
 Athrawes Cefnogol AAA
 Uwch Gymorthydd
 Cymorthydd Dosbarth
 Cymorthydd Dosbarth
 Cymorthydd Dosbarth

GWISG YSGOL

Mae disgwyl i'r disgyblion sy'n mynychu'r Ysgol wisgo gwisg arbennig. Mae llawer rheswm am hyn ond y prif rheswm yw dangos eu bod yn ddisgyblion Ysgol Brynrefail a'u bod yn falch o'r Ysgol. Cefnogir y wisg ysgol gan y Corff Llyowdraethol. Gall rhieni, mewn achos o angen, wneud cais am grant dillad ysgol i'r Awdurdod Addysg. Dewiswyd y wisg i gynrychioli beth a gredir sy'n rhesymol o ran pris a bod modd eu prynu'n lleol. Bydd dehongli cydymffurfiaeth â'r wisg ysgol yn unol â disgresiwn y Prifathro. Mae cyflenwyr y wisg yn cynnwys siopau dillad lleol:

Go for It Sports—Bangor
Na-Nog – Caernarfon,
Siop Trefor Jones, 8 Stryd y Bont, Caernarfon
neu drwy gwmni Brodwaith, Pentrefoelas: www.brodwaithdirect.co.uk

Mae'n bwysig bod pob dilledyn ag enw'r disgybl yn glir arno.

Gwisg Disgyblion Bl.7 i 11

Crys polo gwyn – gyda logo'r Ysgol arno
Crys chwys gwyrdd tywyll – gyda logo'r Ysgol arno
Trowsus plaen du – (nid jeans) neu *sgert ysgol blaen ddu
Hosanau plaen tywyll neu * 'tights' plaen tywyll
Esgidiau plaen du (nid trainers)
Côt dywyll blaen
(*genethod yn unig)

Gemwaith – am resymau diogelwch, mae disgwyl i ddisgyblion beidio a gwisgo gemwaith ond fe ganiateir i ddisgyblion wisgo un 'stud' yn unig ym mhob clust os dymunir.

Gwisg Addysg Gorfforol

Crys chwaraeon gwyrdd â llinell goch
Crys T gwyn
Bechgyn – sanau du / Genethod – sanau gwyrdd
Siorts du
Trainers/pympys i'r gampfa
Esgidiau peldroed ar gyfer gemau ar y caeau gwair
'Shin pads' ar gyfer hoci, peldroed a rygbi
Awgrymir yn gryf bod disgyblion yn gwisgo arbedwr danedd ar gyfer gemau tîm.
Gemwaith – dim i'w gwisgo o gwbl mewn gwersi addysg gorfforol
Trowsus trac du

Gwisg myfyrwyr Bl.12 a 13

Crys gwyn plaen – (nid crys polo)
Tei Ysgol gyda logo Chweched Dosbarth yr Ysgol – ar gael o'r Ysgol
Siwmpwr ddu blaen gwddf 'V' - gyda logo Chweched Dosbarth yr Ysgol – ar gael o'r Ysgol
Trowsus plaen du – (nid jeans) neu *sgert ysgol blaen ddu
Hosanau plaen tywyll new *tights plaen tywyll
Esgidiau plaen du (nid trainers)
Côt dywyll blaen
(*genethod yn unig)

Gemwaith – am resymau diogelwch mae disgwyl i fyfyrwyr Bl.12 a 13 fod yn rhesymol - yn unol â disgresiwn y Prifathro – o ran nifer, lleoliad a gwerth y gemwaith a wisgir.

Atodiad 4

Presenoldeb Disgyblion 2010– 2011

Nifer y disgyblion 11-15 oed	636
Nifer yr hanner dyddiau ysgol hyd at 27 Mai 2011	330
Canran y sesiynau a gollwyd hyd at 27 Mai 2011:	
absenoldebau awdurdodedig	6.7%
absenoldebau anawdurdodedig	0.0%
pob absenoldeb	6.7%

Atodiad 5

Cyrchfannau Disgyblion 2010 – 2011

Oedran disgyblion	15	16	17+	
Cyfanswm disgyblion	125	55	50	
1.	Cwrs ysgol / addysg bellach	111	53	3
2.	Cwrs addysg uwch	-	-	43
3.	Cyflogaeth	11	2	4
4.	Hyfforddiant Ieuencid	3	-	-

Atodiad 6

Polisi Anghenion Addysgol Arbennig

Mae gan yr ysgol bolisi diwallu anghenion addysgol arbennig sy'n ateb y gofynion statudol, y Côd Ymarfer a pholisi'r Awdurdod Addysg Lleol.

Seilir trefn gwricwlaidd yr ysgol ar gyfer diwallu anghenion addysgol arbennig ar y cysyniad o gefnogi disgyblion. Gwneir hyn drwy:

- a) darparu'n wahaniaethol;
- b) roi cefnogaeth i'r disgybl yn y dosbarth;
- c) roi cefnogaeth a chynghor i athrawon pwnc;
- ch) hyfforddiant mewn swydd i athrawon.
- d) roi cefnogaeth arbenigol i'r disgyblion

Dyrennir adnoddau ar gyfer diwallu anghenion addysgol arbennig o fewn yr ysgol yn ôl;

- i) fformiwla ysgol sy'n sicrhau fod arian yn mynd i bob adran i ddiwallu anghenion y disgyblion;
- ii) Cynllun Datblygu yr Adran.

Am y flwyddyn 2011–2012, rhoddir 2 athro i ddiwallu anghenion addysgol arbennig a 10 cymorthydd dosbarth. Adolygir a gwerthusir y trefniadau a'r polisi drwy:

- a) gyfarfodydd mewnol;
- b) gyswllt â'r Llywodraethwr dynodedig;
- c) gydweithio â'r asiantaethau allanol;
- ch) Gynllun Datblygu'r Ysgol.